

DOLEN Y TAB 114

8 - 9 Gorffennaf 2022

Oedfa Sul 10 Gorffennaf am 11

Oedfa yng ngofal Bethan Herbert a'r Parchedig Aled Edwards gyda, Bethan Roberts wrth yr organ.

YR OEDFAON NESAF

Gorffennaf

- 17 Oedfa yng ngofal yr Ysgol Sul gyda Barbeciwr i ddilyn
- 24 Ymuno â Bethlehem Gwaelod y Garth Oedfa yng ngofal Marc J. Williams
- 31 Y Parchedig Eirian Rees a'r teulu

Awst

- 7 Ymuno â Bethlehem, Gwaelod y Garth
- 14 Edwyn Evans
- 21 Ymuno â Bethlehem, Gwaelod y Garth
- 28 I'w drefnu

Hefyd ddydd Sul 10 Gorffennaf

12.00 Oedfa Radio Cymru

Gwasanaeth dan ofal y Parchedig Beti-Wyn James, Caerfyrddin, Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

12.30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19.30 Dechrau Canu Dechrau Canmol

Wrth i'r gyfres ddirwyn i ben, Nia fydd yn ein tywys drwy rai o uchafbwyntiau'r gyfres bresennol o *Dechrau Canu Dechrau Canmol*.

E-fwletin Cristnogaeth 21

Bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

CLO NEWYDD I'R CAPEL

Rhybudd i bawb sydd ag allwedd i ddrws y capel yn eu meddiant. Oherwydd cyflwr truenus y clo presennol bu'n rhaid i Bwyllgor y Meddiannau ei newid ddydd lau er mwyn osgoi cael ein hunain yn y sefyllfa lle nad oedd modd agor y drws i'r Tabernacl o gwbl.

Mae un allwedd newydd wedi ei gosod ar y bwsh o allwedd i a gedwir yn y guddfan o flaen y Ganolfan, ac mae un arall gan John Llew.

Diolch i Edwyn am osod y clo newydd.

Mabolgampau

Tro'r Twmiaid a'r Twmiaid Bach oedd hi i ddangos eu sgiliau Olympaidd nos Sul, ond ar dir sych y tro hwn wedi antur y Twmiaid ar ddŵr yr wythnos flaenorol. Cafwyd cystadlu brwd mewn amryw o gampau megis ras wy ar lwy, ras whilber, ras gyfnewid, a'r uchafbwynt - gonest tynnu rhaff.



Aelodau o'r Twmiaid a'r Twmiaid Bach yn paratoi i ddangos eu sgiliau athletaidd.

Diolch i drefnwyr y mabolgampau, Mabon Rhys ac Ifan Roberts, am eu gwaith cynllunio a threfnu pawb, heb anghofio Brengain Rhys a Gwenno Roberts am gynorthwyo'u brodyr! Braff gweld y criw hŷn yn cymryd yr awenau gan ddangos sgiliau arwain gwych.

Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd nos Fawrth 12 Gorffennaf. Os oes unrhyw fater y carech ei godi yna cysylltwch gyda'r Ysgrifennydd:

gehpengwern@yahoo.co.uk

01443 225205 / 07710 237327



Yn nhref Caerfyrddin yr wythnos hon mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn cynnal eu Cyfarfodydd Blynnyddol. Gan mai yn 1872 y ffurfiwyd yr Undeb mae'r cyfarfodydd eleni hefyd yn gyfle i ddathlu pen-blwydd yr Undeb yn 150 mlwydd oed. Felly nid cyd-ddigwyddiad oedd lleoli'r cyrddau yng Nghaerfyrddin gan mai yng Nghapel Heol Awst yn y dref y cynhaliwyd y cyfarfodydd cyntaf oll.

Gan mai bod 'yn gyfrifol gerbron Duw am eu llywodraeth eu hunain, heb unrhyw ymyrraeth gan na llywodraeth sifil nac awdurdod eglwysig' yw sylfaen pob eglwys annibynnol does dim syndod i dros dau can mlynedd fynd heibio rhwng sefydlu'r eglwys annibynnol cyntaf yng Nghymru yn 1639 a'r penderfyniad i'w cyfundrefnu yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Erbyn y 1870au roedd oddeutu 900 o gapeli annibynnol yng Nghymru ond roedd nifer o eglwysi yn gyndyn iawn i groesawu'r datblygiad newydd. Er hynny roedd 177 o weinidogion yn bresennol yng nghyfarfodydd cyntaf yr Undeb newydd dan Lywyddiaeth y Parchedig Williams Rees, Lerpwl (Gwilym Hiraethog).

Gyda llaw, testun pregeth y Llywydd cyntaf yn 1872 oedd 'Satan'. Am 11.30 fore Sadwrn (9 Gorffennaf) bydd modd i chi weld beth yw pwnc anerchiad y Parchedig Beti-Wyn James, Llywydd 2022, gan fod yr Undeb wedi trefnu i ffrydio'r Oedfa'r Llywydd ar eu gwefan (www.annibynwyr.org) ac yn ddiweddarach ar sianel *Teledu Annibynwyr* ar *YouTube*.

Hefyd gellir gwyllo'r gweithgareddau isod o gyfarfodydd yr Undeb yng Nghaerfyrddin ar sianel *Teledu Annibynwyr*.

Tangnefedd y Beirdd. Cyflwyniadau o gerddi ar heddwch gan nifer o feirdd Ysgol Farddol Caerfyrddin;

Menter mewn ffydd. Cyflwyniad aml-gyfrwng i ddathlu Undeb 150 gan aelodau a chyfeillion eglwysi Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin;

Yr olaf o win yr haf: Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 1972-2022. Darlith gan y Parchg. Ddr. Geraint Tudur.

Sut i logi'r Capel neu'r Ganolfan

E-bostiwrch

gehpengwern@yahoo.co.uk

Neges Testun

07710 237327

Ffonio

01433 225205



Gwahoddiad i

**BARBECIU
CAPEL Y TABERNACL**

**Dydd Sul 17eg o Orffennaf
12 o'r gloch
Y Ganolfan a'r Ardd Gymunedol**



PANED A CHLONC

Dewch am glonc gyfeillgar ac hamddenol

CUPPA AND A CHAT

Come for a friendly and relaxed chat

**Bob Dydd Mawrth
Every Tuesday
10.30-12.00**

Y Ganolfan
Capel Tabernacl
The Vestry,
Tabernacl Chapel



BABI TWM

Y Ganolfan,
Capel Tabernacl
10.00-11.30

Mehefin 6ed & 20fed,
Gorffennaf 4ydd & 18fed

Croeso i rieni, gwarchodwyr, Nain, Tad-cu a'i plant/wyrion/wyresau

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org. Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk